# A. ASESIAD O'R EFFAITH AR HAWLIAU PLANT

## 1. Amcanion polisi

Amlinelliad o'r cynnig

Mae CCUHP yn cydnabod bod gan blant yr hawl i'r safon uchaf bosibl o iechyd ac i gyfleusterau ar gyfer trin salwch ac adsefydlu iechyd. Mae CCUHP hefyd yn cydnabod bod gan blant yr hawl i fwynhau'r safon uchaf bosibl o iechyd corfforol a meddyliol. Mae'r cynnig hwn yn cefnogi'r hawliau hynny fel y nodir yn yr Asesiad Effaith Integredig a gyhoeddwyd hefyd ochr yn ochr â'r ymgynghoriad hwn.

Rydym yn bwriadu ymgynghori ar y cynigion a nodir o fewn rheoliadau drafft ar gyfer Rheoliadau Bwyd (Hyrwyddo a Lleoli) (Cymru) 2024. Nod y rheoliadau hyn yw cyfyngu ar hyrwyddo cynhyrchion penodedig sy'n uchel mewn braster, halen a siwgr yn ôl cyfaint (e.e. cynigion amleitem) a lleoli'r eitemau hynny (e.e. ar ben draw eil). Bydd y cyfyngiadau yn berthnasol i gategorïau bwyd sy'n peri'r pryder mwyaf o ran gordewdra ymhlith plant. Mae'r rheoliadau hefyd yn cynnwys cyfyngiadau ar ail-lenwi diodydd penodol wedi'u melysu â siwgr am ddim yn y sector y tu allan i'r cartref.

## 1. Casglu tystiolaeth ac ymgysylltu â phlant a phobl ifanc

Mae'r strategaeth ddeng mlynedd Pwysau iach: Cymru Iach yn nodi ein huchelgeisiau i fynd i'r afael â gordewdra ar draws Cymru ac yn tynnu sylw at y dull aml-elfen y bydd ei angen i gefnogi newid sylweddol a chael effaith gadarnhaol ar iechyd y genedl. Mae data'n dangos nad yw plant ac oedolion yng Nghymru yn bwyta deiet cytbwys. Rydym yn bwyta gormod o siwgr, braster dirlawn a halen a gormod o galorïau, ond dim digon o ffeibr, ffrwythau a llysiau. Er enghraifft, mae plant rhwng 11 a 18 oed yn bwyta hyd at dair gwaith yr uchafswm o siwgr[1] a argymhellir.

Mae gordewdra yn aml yn parhau mewn plant nes byddant yn oedolion[2], gyda phlant a phobl ifanc gordew tua phum gwaith yn fwy tebygol o fod yn ordew pan fyddant yn oedolion na'r rhai nad oeddent yn ordew. Mae dros 60% o'r boblogaeth oedolion yn ordrwm neu'n ordew ac mae hyn yn cael effaith uniongyrchol ar ystod o glefydau cronig ac ar y blynyddoedd y bydd unigolion yn byw gydag anabledd. Mae gordewdra yn un o brif achosion marwolaeth a chlefydau cronig y gellir eu hatal. I lawer o blant neu oedolion gyda gordewdra, mae'r profiad o stigma a rhagfarn

[1] Llywodraeth Cymru. (2019). Arolwg Deiet a Maeth Cenedlaethol: canlyniadau Blynyddoedd 5 i 9 Rhaglen Dreigl Cymru (2012/2013 – 2016/2017) a thuedd amser a dadansoddiad incwm (Blynyddoedd 1 i 9; 2008/09 – 2016/17)

[2] Simmonds, M et al. (2016). Predicting adult obesity from childhood obesity: a systematic review and meta-analysis. Ar gael yn: https://pubmed.ncbi.nlm.nih.gov/26696565/#:~:text=Obese%20children%20and%20adolescents%20were%20around%20five%20times,around%2070%25%20will%20be%20obese%20over%20age%2030.


pwysau yn cyfrannu'n sylweddol at straen, gorbryder ac iselder a gall leihau hunanhyder, hunan-barch a hunan-werth.

Mae Rhaglen Mesur Plant 2022-23[3] yn dangos:

- Ar lefel Cymru gyfan, 0.9% oedd cyfran y plant gyda thanbwysau, sydd ychydig yn uwch na'r 0.7% a adroddwyd cyn y pandemig yn 2018/19.
- Cyfran y plant â phwysau iach oedd 74.3%. Roedd hyn yn sylweddol uwch na chyn y pandemig gyda chyfran o 72.4% wedi'i adrodd yn 2018/19.
- Cyfran y plant gyda gorbwysau a gyda gordewdra oedd 13.4% a 11.4% yn y drefn honno. Roedd y rhain yn ystadegol sylweddol is na'r cyfrannau gyda gorbwysau (14.4%) a gyda gordewdra (12.6%) a adroddwyd yn 2018/19. Dangosir y duedd yng nghyfran y plant â gordewdra dros amser yn y Ffigur isod. Er bod y gyfran ar draws Cymru yn is na chyn y pandemig, dylid bod yn ofalus wrth ddehongli'r canlyniad hwn o ystyried y data coll yn ystod y pandemig a’r ffaith mai dim ond un pwynt data a fu ar ôl y pandemig. Mae hyn yn golygu na allwn fod yn hyderus eto bod hyn yn duedd.

**Canran y plant 4 i 5 oed gyda ordew, Rhaglen Mesur Plant, Cymru, 2013/14 - 2022/23***

Cynhyrchwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan ddefnyddio data’r RhMP (IGDC)




*Effeithiwyd yn ddifrifol ar adrodd am y Rhaglen Mesur Plant oherwydd y pandemig COVID-19. Nid oes data ar gael ar gyfer pob cyfnod.


- Roedd cyfran y plant â gordewdra yng Nghymru yn uwch na'r gyfran a adroddwyd ar gyfer Lloegr a'r Alban.
- Roedd plant sy'n byw yn y ‘pumed amddifadedd’ lleiaf difreintiedig yn ôl cod post preswyl yn llai tebygol yn ystadegol o fod â gordewdra o'i gymharu â phob pumed amddifadedd arall.

[3] RhMP 2022-23 - Iechyd Cyhoeddus Cymru (gig.cymru)

**Tabl 1:** Crynodeb o Ddata Amddifadedd Lefel Cymru, Plant 4-5 oed, Rhaglen Mesur Plant 2022/23

| *Pumed amddifadedd* | *Cyfranogiad* | *Cyfran Pwysau Iach, CH 95%* | | *Cyfran Dros Bwysau, CH 95%* | | *Cyfran Gordew, CH 95%* | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Pumed â'r amddifadedd lleiaf | 92.3% | 79.4% | (78.3-80.5) | 11.8% | (11.0-12.7) | 7.8% | (7.1-8.6) |
| Ail bumed â'r amddifadedd lleiaf | 92.1% | 75.6% | (74.4-76.7) | 12.9% | (12.0-13.8) | 10.6% | (9.8-11.4) |
| Pumed canol | 91.8% | 73.8% | (72.7-74.9) | 13.6% | (12.7-14.5) | 11.6% | (10.8-12.5) |
| Ail bumed â'r amddifadedd mwyaf | 91.0% | 72.6% | (71.4-73.7) | 14.0% | (13.1-14.9) | 12.7% | (11.9-13.6) |
| Pumed â'r amddifadedd mwyaf | 90.6% | 71.2% | (70.2-72.2) | 14.2% | (13.4-15.0) | 13.6% | (12.8-14.4) |

**Ffigur 2:**




## Cynnig ac Effeithiau


Y bwriad yw y bydd y drafft arfaethedig o'r Rheoliadau Bwyd (Hyrwyddo a Lleoli) (Cymru) 2024 o fudd i iechyd pob plentyn. Nid yw camau gwirfoddol gan y diwydiant i gefnogi'r cyhoedd i wneud dewisiadau iachach (ail-lunio, labelu maeth ac ati) wedi'i gyflawni'n gyson nac wedi cael yr effaith a ddymunir ar newid deietegol. Bydd y cynnig hwn yn sicrhau chwarae teg drwy gyfyngu ar hyrwyddo bwyd nad yw'n iach a chymell ail-lunio iach yn y tymor hwy.

Mae gwaith marchnata a hyrwyddo mewn siopau yn helaeth, yn ddwfn ac yn effeithiol o ran dylanwadu ar ddewisiadau bwyd a'r hyn a brynir. Mae hyrwyddiadau prisio yn apelio at bobl o bob grŵp demograffig ac yn aml yn arwain pobl i brynu mwy o'r categori a hyrwyddir na'r disgwyl. Fodd bynnag, mae plant yn unigryw agored[4] i'r technegau a ddefnyddir i hyrwyddo gwerthiant. Bwriad y cynnig yw atal plant rhag gorfwyta bwydydd sy'n uchel mewn braster, halen neu siwgr a gwella'r amgylchedd bwyd ehangach trwy ei gwneud yn haws i ddefnyddwyr wneud dewisiadau iach.

Mae'r Rhaglen Mesur Plant yn dangos bwlch anghydraddoldeb sylweddol sy'n gysylltiedig ag iechyd, gyda'r cyfraddau gordewdra mwyaf yn bresennol mewn cymunedau lle mae lefelau amddifadedd uwch.

**Canran y plant gyda dros bwysau neu'n ordew, y gwahaniaeth rhwng ardaloedd mwyaf difreintiedig a lleiaf difreintiedig Cymru a byrddau iechyd, pob plentyn, 2022/23**

Cynhyrchwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan ddefnyddio data'r RhMP (IGDC), MALlC 2019 (LlC)




[4] Carter, Owen B J et al. (2011) Children's understanding of the selling versus persuasive intent of junk food advertising: implications for regulation. Ar gael yn: https://pubmed.ncbi.nlm.nih.gov/21349621/

Er ei bod yn ymddangos bod hyrwyddiadau yn arbed arian i ddefnyddwyr, mae data'n dangos y gallant mewn gwirionedd gynyddu gwariant[5] defnyddwyr oddeutu 20%. Mae'r cynhyrchion hyn yn annog pobl i brynu mwy nag yr oeddent yn bwriadu ei brynu yn y lle cyntaf. Mae ymchwil hefyd yn dangos bod hyd at 83% o'r pryniannau a wneir pan fo hyrwyddiad prisio yn bryniannau ysgogol, gyda dim ond 17% wedi'u cynllunio. Pobl ar incwm is neu bobl sydd â phlant sydd fwyaf tebygol o brynu bwyd a diod sy'n uchel mewn braster, siwgr neu halen (HFSS) pan fo cynnig arbennig. Er enghraifft, mae tua hanner y siocled a brynir ar gynnig arbennig. Er mai dyna yw eu bwriad, nid yw defnyddwyr fel arfer yn pentyrru bwyd[6], ac mae pryniannau ychwanegol yn gyffredinol yn arwain at fwyta mwy, a bwyta mwy o galorïau. Nod y polisi felly yw cael effaith gadarnhaol ar blant o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is.

**Ymgysylltu**

Mae'r strategaeth Pwysau iach: Cymru Iach yn cael ei goruchwylio gan Fwrdd Gweithredu Cenedlaethol. Mae'r Bwrdd yn cynnwys cynrychiolaeth o'r Senedd Ieuenctid a'r Comisiynydd Plant. Mae effaith gordewdra ar blant a phobl ifanc wedi cael ei hystyried drwy gydol datblygiad y strategaeth a'r cynnig a nodir yn yr ymgynghoriad hwn. Yn ystod ein hymgynghoriad cychwynnol ar yr Amgylchedd Bwyd Iach yn 2022, gwnaethom ymgynghori'n uniongyrchol ag ystod o blant a phobl ifanc a chynnal amrywiaeth o grwpiau ffocws penodol i gasglu safbwyntiau. Fe wnaethom hefyd benodi pum Llysgennad (gan gynnwys Llysgennad Plant ac Ieuenctid) fel rhan o'r strategaeth Pwysau Iach: Cymru Iach sy'n ymgysylltu'n uniongyrchol â phlant a theuluoedd.

## 2. Dadansoddi'r dystiolaeth ac asesu'r effaith

| Erthyglau CCUHP neu Brotocol Dewisol | | Yn gwella (X) | Yn herio (X) | Esboniad |
| --- | --- | --- | --- | --- |
| • Erthygl 2 - Mae'r Confensiwn yn berthnasol i bawb beth bynnag fo'u hil, crefydd, galluoedd, beth bynnag maen | | X | | Nod y rheoliadau hyn yw sicrhau bod gan bob plentyn yr hawl gorau posibl i gael gafael ar fwyd iach a maethlon a fydd yn helpu i gefnogi twf iach beth bynnag fo'i hil, crefydd, gallu a beth bynnag maen nhw'n ei feddwl neu'n ei ddweud ac o ba fath bynnag deulu maen nhw'n dod, ond mae gwneud dewis iach |

[5] NHS Health Scotland (2017). Rapid evidence review: The impact of promotions on high fat, sugar and salt (HFSS) food and drink on consumer purchasing and consumption behaviour and the effectiveness of retail environment interventions

[6] Public Health England. (2015). Sugar reduction: from evidence into action

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| nhw'n ei feddwl neu'n ei ddweud ac o ba fath bynnag o deulu maen nhw'n dod.<br><br>• Erthygl 3 - dylai pob sefydliad sy'n ymwneud â phlant weithio tuag at yr hyn sydd orau i bob plentyn.<br>• Erthygl 24 - mae gan blant yr hawl i ofal iechyd o ansawdd da a hawl i ddŵr glân, bwyd maethlon ac amgylchedd glân fel y byddant yn cadw'n iach.<br>• Erthygl 27 - Mae gan blant hawl i safon byw sy'n ddigon da i ddiwallu eu hanghenion corfforol a meddyliol. | | X<br><br>X<br><br>X | | yn golygu bod manwerthu yn gosod y dewis hawdd.<br><br>Mae'n cefnogi Erthyglau 3, 24 a 27 yn benodol.<br><br>Rydym yn gwybod y bydd gordewdra yn aros gyda llawer o blant drwy gydol eu bywyd ac y bydd meithrin arferion iach yn ifanc yn helpu i liniaru ystod o ffactorau risg. Mae cynnydd hefyd mewn salwch cronig ymhlith plant, fel diabetes math II, sy'n cael eu priodoli i ymddygiadau dietegol.<br><br>Bwriad newid yr amgylchedd bwyd yw cynyddu'r ystod o ddewis ac argaeledd cynhyrchion iachach i blant a phobl ifanc. Rydym am i blant gael yr hawl i gael gafael ar fwydydd iachach a lleihau rhwystrau i lawer o deuluoedd er mwyn helpu i alluogi dewisiadau sy'n hyrwyddo gwell iechyd. Bydd hyn yn cefnogi newidiadau cadarnhaol ochr yn ochr ag ystod o fesurau eraill a nodir yn y strategaeth Pwysau Iach: Cymru Iach a'r cynllun cyflawni ategol. |

### 3. Cyngor a phenderfyniad gweinidogol

Mae dadansoddiad o'r effeithiau hyn i blant a phobl ifanc yn cefnogi'n gryf y cynigion a nodir yn yr Offeryn Statudol ar gyfer Rheoliadau Bwyd (Hyrwyddo a Lleoli) (Cymru) 2024. Bydd swyddogion yn sicrhau bod y buddion hyn yn cael eu nodi'n glir o fewn yr holl gyngor gweinidogol sy'n ymwneud â'r rheoliadau arfaethedig.

## 4. Cyhoeddi'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant

Bydd yr asesiad hwn yn cael ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r ymgynghoriad ar y rheoliadau drafft ar gyfer Rheoliadau Bwyd (Hyrwyddo a Lleoli) (Cymru) 2024.

## 5. Cyfathrebu gyda Plant a Phobl Ifanc

Gofynnwyd am safbwyntiau plant a phobl ifanc drwy ymgynghoriad cychwynnol Llywodraeth Cymru ar yr Amgylchedd Bwyd Iach yn 2022, a oedd yn cynnwys cyfyngiadau ar hyrwyddo a lleoli o dan y thema ‘Basgedi Siopa Iachach’ a chyfyngiadau ar ddiodydd meddal llawn siwgr o dan thema ‘Bwyta'n Iachach y tu allan i'n Cartrefi’.

Gan fod yr ymgynghoriad hwn wedi'i anelu'n bennaf at fusnesau a chyrff gorfodi yr effeithir arnynt, ni fyddwn yn cyhoeddi fersiwn plant a phobl ifanc o'r ymgynghoriad. Fodd bynnag, yn dilyn canlyniad yr ymgynghoriad sydd ar ddod ar y rheoliadau drafft, byddwn yn cyhoeddi adnodd sy'n addas i blant i roi gwybod i blant a phobl ifanc am y newidiadau sy'n cael eu datblygu.

## 6. Monitro ac adolygu

Bydd canfyddiadau'r ymgynghoriad yn cael eu defnyddio i adolygu'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant. Bydd swyddogion yn cyflwyno’r canfyddiadau i Weinidogion gan amlinellu'r camau nesaf posibl a allai gynnwys cynigion i fwrw ymlaen neu ddiwygio'r cyfeiriad polisi.